



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



CANOLFAN
GWASANAETHAU
CYMRAEG
WELSH LANGUAGE
SERVICES CENTRE



Tystysgrif Polisi a Chynllunio Iaith

Hanfodion Cynllunio Iaith

Sesiwn 3: Hanfodion, seiliau cynllunio iaith a gweithiau allweddol

Elin Haf Gruffydd Jones a Catrin Llwyd



Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru
University of Wales Centre for Advanced Welsh and Celtic Studies



9:30	Croeso/Cadarnhau Amserlen
10:00	Rhan 1: Trafodaeth ar y dysgu cyfeiriol (GIDS)
10:45	Egwyl 5 munud
10:50	Rhan 2: Y Gymraeg heddiw yn y cyd-destun Ewropeaidd (parhad)
11:30	Egwyl 10 munud
11:40	Rhan 3: Seiliau a Chefndir Polisi a Chynllunio Iaith
12:20	Dysgu Cyfeiriol a Ffarwelio

Dyddiad	Cynnwys
Sesiwn 1: 29/09/25 Cyflwyniad i'r Cwrs	Croeso ac Anwytho Cyflwyniad i sylfeini'r Dystysgrif Cyflwyno ein gilydd – tiwtoriaid a myfyrwyr
Sesiwn 2: 06/10/2025 Beth yw Cynllunio Iaith?	Taith iaith Sut ydyn ni yn 'meddwl am iaith'? : Darlleniadau Fishman (1991) a Jones (2023) Y Gymraeg fel iaith Ewropeaidd ym myd Polisi a Chynllunio iaith Terminoleg Polisi a Chynllunio iaith
Sesiwn 3: 13/10/2025 Gweithiau Allweddol	Dylanwadwyr: Gweithiau allweddol ym maes Cynllunio iaith. Sylfeini cysyniadol a deallusol Gwyddor Polisi a Chynllunio iaith yn ei chyd-destun cymdeithasegol
Sesiwn 4: 20/10/2025 Ffocws ar Gymru	Polisi a Chynllunio iaith yng Nghymru Datblygu a Gweithredu polisïau yn y 20fed ar 21ain ganrif.
HANNER TYMOR DEWISOL! Dydd Iau : 27/10/2025	"Language and Power: A Political Science Perspective". - Prof. Linda Cardinal, University of Ottawa / Université de l'Ontario français, Canada & Prof. Peter A. Kraus, Augsburg Universität, Germany 30.10.25 15:30–17:00 Dr Jaione Diaz Mazquiaran, Athro Gwadd Alan R King mewn Sosioieithyddiaeth. Hybrid Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac arlein 5pm

Dyddiad	Cynnwys
Sesiwn 5: 03/11/2025 Demograffeg	Cyflwyniad Demograffeg: Llio Dalgliesh & Patience Jones (Llywodraeth Cymru) Trafod a dehongli data Cyd-destun rhyngwladol
Sesiwn 6: 10/11/2025 Ffocws ar Wlad y Basg a Chynllunio iaith.	Cyflwyniad i Wlad y Basg – siaradwr gwadd Dr Jasone Diaz Mazkaran Cyflwyniad i Gynllunio iaith yng Ngwlad y Basg Cyflwyniad i syniadaeth a damcaniaethau sy’n sail i bolisi a chynllunio iaith yno.
Sesiwn 7: 17/11/2025 Meysydd Craidd: Ystyriaeth feirniadol	Gorolwg feirniadol ar ddatblygiad polisi iaith yng Nghymru:
Sesiwn 8: 24/11/2025 Ymddygiad Cymdeithasol	Perthynas iaith a Grym Y Grŵp iaith fel Grŵp Cymdeithasol Sesiwn gyda Dr Richard Glyn Roberts
Sesiwn 9: 01/12/2025 Y Sefyllfa yn Llydaw	Cyflwyniad i sefyllfa gyfoes Llydaweg syniadaeth a damcaniaethau sy’n sail i bolisi a chynllunio iaith yno Sesiwn gyda Dr Aneirin Karadog
08/12/2025	Asesiad: Cyflwyniadau
Sesiwn 10: 15/12/2025	Adborth a Chrynhoi Paratoi at y traethawd



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



CANOLFAN
GWASANAETHAU
CYMRAEG
WELSH LANGUAGE
SERVICES CENTRE

Dysgu Cyfeiriol

Darllenwch eto:

Reversing Language Shift (Fishman) **Fishman, J (2001) Pennod 19, tt. 465-474 (ac yna ymlaen i 483)**

- Ble fydddech chi'n gosod sefyllfa'r Gymraeg ar raddfa GIDS?
- Sut bydddech chi'n mynd ati i addasu'r GIDS ar gyfer 2025, os o gwbl?



Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru
University of Wales Centre for Advanced Welsh and Celtic Studies



Ym Mhennod Fishman, ble byddech chi'n gosod sefyllfa'r Gymraeg ar raddfa GIDS?

5-8 yn ei le, ond dydy'r raddfa ddim yn gweithio wrth feddwl am un cam yn arwain at y llall. Gwahaniaethau rhwng gwahanol ardaloedd yng Nghymru. Angen mwy o gysondeb ar draws Cymru, ee addysg.

Rhywle rhwng 2-4b. Cymdeithas yn newid. Buddsoddiad ac arian mewn gwasanaethau. Digidol ac arlein, sut mae gwahanol genedlaethau yn dod at ei gilydd.

Mesur y Gymraeg wedi gwthio nhw at 1a o ran deddfwriaeth; ond pwyntiau eraill ar y raddfa angen sylw. Gallu bod ar sawl pwynt ar y raddfa. Sylw sydd angen i 6. Effaith y pandemig. Arlein, cymunedau dysgu, ond effaith negyddol ar blant, llythrennedd. Trosglwyddiad rhwng y cenedlaethau yn fregus. Symudedd wedi cynyddu ac amlddiwylliannedd wedi cynyddu ers datblygu'r raddfa. Technoleg a deallusrwydd artiffisial. Angen datblygu GIDS i adlewyrchu'r ffactorau hyn.

Epistemoleg Fishman yn canolbwyntio ar drosglwyddo o fewn y teulu. Cam 6. Sefydliadau cryf. Ewyllys da. Ond nid yn cyfieithu i ymddygiad. Diffiniadau: cyfryngau torfol, i ba raddau mae cyfryngau Cymraeg yn rhai torfol. Tystiolaeth i gefnogi fod y camau uwch yn digwydd ond hefyd fod y camau is yn simsan.

• Sut byddech chi'n mynd ati i addasu'r GIDS ar gyfer 2025, os o gwbl?

Digidol: Defnydd o'r iaith ar tiktok, youtube, cyfryngau digidol. Digidol ar gyfer dysgu iaith. Deallusrwydd artiffisial, cyfieithu peirianyddol, cywair iaith, colli iaith naturiol, tafodiaith. ee cydymffurfiaeth ateb ffôn ddim cystal, gwasanaethau ysgrifenedig yn well. **Rhithiol a phersonol/wyneb yn wyneb. Seilwaith technolegol yr iaith** a defnydd mewn platfformau, technolegau

Symudedd poblogaeth, gan gynnwys rhyngwladol. Sut mae mynd a'r Gymraeg i bob cymuned, i bob rhan o'r boblogaeth ee newydd ddyfodiaid o Wcrain ayb.

Allfudo pobl ifanc i fynd i astudio addysg uwch tu allan i Gymru. Canfyddiad fod y cyfleoedd tu allan i Gymru neu yn Saesneg.

Celfyddydau, angen cydnabod pwysigrwydd. Tu allan i'r dosbarth. Pob oedran.

Trosglwyddo – o fewn y teulu, a dulliau eraill. Addysg. Dim cymunedau i fedru defnyddio'r iaith y tu allan i addysg. Ymestyn y bybl Cymraeg. Addysg bellach/ ôl-16. Bodoli tu allan i'r dosbarth. Anweledig. Diffyg hyrwyddo addysg cyfwng Cymraeg i rieni newydd. Rhwysr uchel i gyrraedd addysg cyfrwng Cymraeg.

Ymwybyddiaeth o ble rydym arni efo'r Gymraeg. Hyrwyddo a hybu yn y **cymunedau** ble mae'r ymwybyddiaeth yn is, agor cyfleoedd cymunedol.

Polisiau a deddfwriaeth iaith – sylw penodol a manwl. Ymestyn i sector preifat.

Joshua A. Fishman

- 1926–2015
- Ganwyd a magwyd yn Philadelphia
- Iddew, yn siarad Ideg
- Wedi cymryd diddordeb mewn mewn Basgeg a Ffriseg
- Wedi ymweld â Chymru – Cynhadledd Ryngwladol Ieithoedd Lleiafrifol 1993
- Rhestr cyhoeddiadau hir
- Arloeswr ac un o brif sylfaenwyr y maes yn academiaidd ac yn ymarferol.



Perygl a Hyfywedd leithyddol UNESCO (Jones & Uribe-Jongbloed 2013: 101)

Ffactor 1.
Trosglwyddo rhwng
cenedlaethau

Ffactor 2. Nifer
Siaradwyr

Ffactor 3. Canran
Siaradwyr

Ffactor 4.
Tueddiadau yn y
Peuoedd leithyddol
Presennol

Ffactor 5. Ymateb i
Beuoedd Newydd a'r
Cyfryngau

Ffactor 6.
Deunyddiau ar gyfer
Dysgu Iaith a
Llythrennedd

Ffactor 7. Polisiâu ac
Agweddau iaith
Llywodraethau a
Sefydliadau

Ffactor 8.
Agweddau'r
Gymuned at eu hiaith
nhw eu hunain

Ffactor 9. Ansawdd a
Maint Dogfennaeth
yn yr iaith

Perygl a Hyfywedd leithyddol UNESCO (Jones & Uribe-Jongbloed 2013: 101)

Ffactor 1. Trosglwyddo rhwng cenedlaethau

Ffactor 2. Nifer Siaradwyr

Ffactor 3. Canran Siaradwyr

Ffactor 4. Tueddiadau yn y Peuoedd leithyddol Presennol

Ffactor 5. Ymateb i Beuoedd Newydd a'r Cyfryngau

Ffactor 6. Deunyddiau ar gyfer Dysgu Iaith a Llythrennedd

Ffactor 7. Polisiau ac Agweddau Iaith Llywodraethau a Sefydliadau

Ffactor 8. Agweddau'r Gymuned at eu hiaith nhw eu hunain

Ffactor 9. Ansawdd a Maint Dogfennaeth yn yr Iaith

Addasu GIDS tuag at eGIDS (Expanded GIDS)

LEWIS, M.P. a SIMONS, G.F. (2010)
'Assessing Endangerment: Expanding
Fishman's Gids' *Revue roumaine de
linguistique*. 55 (2): 103–120.

[Microsoft Word - art01Lewis.doc
\(lingv.ro\)](#)


Summary of Fishman's GIDS

GIDS	(adapted from Fishman 1991)
LEVEL	DESCRIPTION
1	The language is used in education, work, mass media, government at the nationwide level
2	The language is used for local and regional mass media and governmental services
3	The language is used for local and regional work by both insiders and outsiders
4	Literacy in the language is transmitted through education
5	The language is used orally by all generations and is effectively used in written form throughout the community
6	The language is used orally by all generations and is being learned by children as their first language
7	The child-bearing generation knows the language well enough to use it with their elders but is not transmitting it to their children
8	The only remaining speakers of the language are members of the grandparent generation




EGIDS Expanded Graded Intergenerational Disruption Scale

shiftt ieithyddol



Rhyngwladol	0	Diogel
Cenedlaethol	1	Diogel
Rhanbarthol	2	Diogel
Cyfathrebu ehangach	3	Diogel
Addysgol	4	Diogel
Datblygol	5	Diogel
Bywiog / heini	6a	Diogel
Dan Fygythiad	6b	Bregus
Yn shifttio	7	Mewn Perygl
Ar farw	8a	Mewn Perygl Difrifol
Bron wedi darfod	8b	Mewn Perygl Argyfyngol
Ynghwsg	9	Diflanedig
Darfodedig	10a	Diflanedig
Anghofiedig	10b	Diflanedig



Gwrthdroi
shiftt ieithyddol

Lefel	Label	Disgrifiad	UNESCO
0	Rhyngwladol	Yr iaith yn cael ei defnyddio mewn nifer o feysydd ar lefel ryngwladol	Diogel
1	Cenedlaethol	Yr iaith yn cael ei defnyddio mewn addysg, gwaith, cyfryngau, llywodraeth ar lefel genedlaethol	Diogel
2	Rhanbarthol	Yr iaith yn cael ei defnyddio ar gyfer gwasanaethau llywodraethol a chyfryngau lleol a rhanbarthol.	Diogel
3	Masnachol	Yr iaith yn cael ei defnyddio ar gyfer gwaith yn lleol ac yn rhanbarthol gan bobl o’r tu fewn ac o’r tu allan.	Diogel
4	Addysg	Llythrennedd addysgol yn cael ei drosglwyddo yn yr iaith drwy system addysg gyhoeddus.	Diogel
5	Ysgrifenedig	Yr iaith yn cael ei defnyddio ar lafar gan bob cenhedlaeth ac yn cael ei defnyddio’n effeithiol ar ffurf ysgrifenedig mewn rhannau o’r gymuned.	Diogel
6a	Cryf	Yr iaith yn cael ei defnyddio ar lafar gan bob cenhedlaeth ac yn cael ei dysgu gan blant fel iaith gyntaf.	Diogel
6b	Dan fygythiad	Yr iaith yn cael ei defnyddio gan bob cenhedlaeth ar lafar ond dim ond rhai rhieni (poblogaeth oed cael plant) sydd yn ei throsglwyddo i’w plant.	Bregus
7	Shifft	Y boblogaeth oed cael plant yn gwybod yr iaith yn ddigon da i’w defnyddio ymysg ei gilydd ond nid yn ei throsglwyddo i’w plant.	Mewn perygl

GIDS

Graded Intergenerational Disruption Scale

Defnyddio “Cyfieithu” fel ffordd o ddarllen y testun yn agos – a’i ddeall

Graded a Scale = graddfa yw’r ddau yn Gymraeg
disruption = tarfu neu amharu; enw neu berfenw

Cenedlaethau – nid cenedlaethol

Graddfa Tarfu rhwng y Cenedlaethau fesul Cam

STAGES OF REVERSING LANGUAGE SHIFT:
SEVERITY OF INTERGENERATIONAL DISLOCATION
(read from the bottom up)

1. Education, work sphere, mass media and governmental operations at higher and nationwide levels.
2. Local/regional mass media and governmental services.
3. The local/regional (i.e. non-neighbourhood) work sphere, both among Xmen and among Ymen.
- 4b. Public schools for Xish children, offering some instruction via Xish, but substantially under Yish curricular and staffing control.
- 4a. Schools in lieu of compulsory education and substantially under Xish curricular and staffing control.

II. RLS to transcend diglossia, subsequent to its attainment

5. Schools for literacy acquisition, for the old and for the young, and not in lieu of compulsory education.
6. The intergenerational and demographically concentrated home-family-neighbourhood-community: the basis of mother-tongue transmission.
7. Cultural interaction in Xish primarily involving the community-based older generation.
8. Reconstructing Xish and adult acquisition of XSL.

I. RLS to attain diglossia (assuming prior ideological clarification)

Based on a review of his body of work in sociolinguistics, there is no evidence that Joshua Fishman, the American sociologist and linguist, ever discussed or used the terms "Xian" and "Yian". The search results indicate these terms have different origins and meanings.

Meaning of "Xian" and "Yian"

- The terms are likely of Chinese origin and are not related to Fishman's theories on diglossia, bilingualism, and language revitalization.
- **Xian:** In Chinese, *xian* (仙) refers to an "immortal" or "celestial being" in Taoist philosophy, or a virtuous and worthy person (贤). The city of Xi'an (西安) is also written with these characters and means "western peace".
- **Yian:** Also likely of Chinese origin, Yian (义安) can mean "righteous tranquility" or "suitable peace". It can also be a variant of Western names like Ian.
- These terms might also be confused with the concept of Yin and Yang, the dualism of balancing forces in Chinese philosophy, which are sometimes symbolized by two fish. **(Google – AI)**

Joshua Fishman's concepts related to "Xian" and "Yian" are rooted in his work on language revitalization and cultural identity. He distinguishes between "Xish" (the threatened minority language) and "Yish" (the dominant language) **(Academia.edu)**

EGWYL



Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru
University of Wales Centre for Advanced Welsh and Celtic Studies



Dadansoddi sefyllfa'r Gymraeg heddiw yn y cyd-destun Ewropeaidd



Yn erbyn gwahanol ddangosyddion a rhestrau neu gyfuniadau o ddangosyddion

(e.e. GIDS, eGIDS, UNESCO leithoedd mewn perygl...

Arolygon cynhwysfawr e.e. Astudiaeth Euromosaic ar atgynhyrchu cymunedol.

Ideoleg, persbectif, fframwaith ddamcaniaethol... Beth yw'r pwyslais neu'r ffocws?

Troeon a thueddiadau mewn astudiaethau... e.e. yw'r pwyslais wedi bod ar y digidol/rhwydweithiau ac yn troi “yn ôl” at y daearyddol?



Rhwydweithiau Ewropeaidd ym maes

Polisi a Chynllunio Iaith

Rhwydweithiau ymgyrchol, academiaidd,
llywodraethau, neu gyfuniadau



PLURILINGMEDIA

Language Plurality in Europe's Changing Media Sphere





Edrych tu hwnt i Ewrop

Gweithiau allweddol a phrofiadau
Gogledd America

Mafalda



Rhanbarthau eraill y byd

Persbectifau a systemau gwybodaeth
pobloedd frodorol

Degawd Rhyngwladol Ieithoedd Brodorol
UNESCO

Ffactorau i'w hystyried wrth adnabod ardaloedd all gynnig cymhariaeth



Mae rhai o'r ieithoedd hyn yn iaith y
mwyafrif dros y ffin yn y wladwriaeth nesaf

Mae rhai yn ieithoedd unigryw, heb wladwriaeth

Mae gan rai bolisiau penodol i gysylltu economi a iaith

Mae rhai yn ieithoedd swyddogol yn eu rhanbarthau
/ gwledydd



Y Gymraeg yn ei chyd-destun Ewropeaidd

- Ieitheg neu ieithyddiaeth: iaith Geltaidd, Indo-Ewropeaidd. Yr elfen Ladin yn y Gymraeg. Dylanwad y Saesneg.
- Iaith yn Ewrop ganoloesol: traddodiad llenyddol parhaus, testunau cyfreithiol, meddygol, gwyddonol, crefyddol ac ati. Iaith y Dadeni
- Iaith lenyddol Ewropeaidd yn y cyfnod modern, llythrennedd dosbarth gweithiol, crefydd anghydfurfiol
- Y Gymraeg fel iaith gyfoes, leiafrifol/leiafrifedig o fewn un wladwriaeth, gyda gweinyddiaeth leol o fewn ffiniau'r wlad, a Senedd ddatganoledig
- Y Gymraeg fel iaith ddinesig, drefol, cefn gwlad – ar draws cenedlaethau ac oedrannau
- Ardaloedd dwysedd uwch, canolig ac is, iaith gymunedol a iaith genedlaethol
- Sylfaen economaidd eang gan ei siaradwyr
- Buddsoddiad cyhoeddus a statws cyhoeddus



EGWYL



Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru
University of Wales Centre for Advanced Welsh and Celtic Studies



Beth yw cynllunio iaith?



Beth yw cynllunio iaith?

- Ymyrraeth polisi penodol – gan fod sefyllfa’r iaith yn golygu nad yw’n digwydd yn ‘naturiol’
- Cynllunio bwriadus, gyda ffocws a nod
- Gellir cynllunio ar gyfer iaith fwyafrifol – ee pobl sydd yn mewnfudo i’r Deyrnas Gyfunol.
- Polisi o annog Afrikaans fel iaith leiafrifol, er mwyn ffafrio un grŵp ethnig
- Rhoi trefn ar sefyllfa
- Gwneud y mwyaf o’r cyllid sydd ar gael; gweithio’n strategol tua’r un cyfeiriad
- Data – data ar gyfer cynllunio ac yna data i weld a yw’r ymyrraeth wedi gweithio.
- Cynllunio i gyrraedd targed penodol, efo pwrpas penodol
- Strwythuredig, nid ar hap
- Diogelu

Seiliau a Chefndir Polisi a Chynllunio Iaith

"By language planning I understand the activity of preparing a normative **orthography, grammar, and dictionary** for the guidance of writers and speakers in a non-homogenous speech community"

(Haugen 1959:8)

"Language planning is a body of ideas, laws and regulations (language policy), change, rules, beliefs, and practices intended to achieve a planned change (or to stop change from happening) in the language use in one or more communities"

(Kaplan & Baldauf Jr. 1997:3)

"Language planning...must be linked to the critical evaluation of language policy: the former providing standards of rationality and effectiveness, the latter testing these ideas against actual practice in order to promote the development of better ... language planning models. Such a field would be better described as language policy and planning"


(Fettes 1997:14)

Seiliau a Chefndir Polisi a Chynllunio Iaith

"Mae cynllunio ieithyddol yn bodoli fel maes sy'n ceisio dylanwadau ar y modd y mae un iaith neu nifer o ieithoedd yn cael eu defnyddio mewn bywyd bob dydd"

(Prys a Hodges 2020:218)

Seiliau a Chefndir Polisi a Chynllunio Iaith



Baldauf (2006)

Tasg: Ystafelloedd trafod (2 grŵp)

1. A allwch chi feddwl am enghreifftiau yng Nghymru o gynllunio iaith ar lefel macro, meso a micro?
2. Beth yw natur y rhyngberthynas rhyngddynt?
3. Beth yw'r heriau?




The community as a language planning crossroads

Hodges, Rhian; Prys, Cynog

*This study... highlights the difficulty in differentiating between macro and micro levels of community language planning as the **boundaries between both are often blurred** (Liddicoat and Baldauf 2008) and can operate on a **continuum from macro to micro** (Baldauf 2006). The study further highlights the community as a language planning crossroads where the macro and the micro meet and where individual actors have to navigate the complexities of daily social interaction. The macro and the micro are represented in the paper by WG initiatives and community actors themselves.*

Teipolegau Polisi a Chynllunio Iaith (sesiwn 4)





Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



CANOLFAN
GWASANAETHAU
CYMRAEG
WELSH LANGUAGE
SERVICES CENTRE

Dysgu Cyfeiriol

Darllenwch:

- Pennod 12 o *Introducing sociolinguistics* (Mesthrie, R. (2009))
- Hodges, R., & Prys, C. (2019). The community as a language planning crossroads: macro and micro language planning in communities in Wales.
- Tynged yr Iaith (Lewis, 1998)

Yn y sesiwn nesaf:

Teipolegau Cynllunio Iaith
Ffocws ar Gymru a Chynllunio Iaith

